Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

1. Dechrau

1.5 Dewis strwythurau cyfreithiol

Statws cyfreithiol

Eich statws cyfreithiol yw'r ffordd y mae'ch mudiad wedi'i ddiffinio yn ôl y gyfraith, yn seiliedig ar y ffordd y'i sefydlwyd a'r rheolau sy'n rhan ohono. Mae gan bob mudiad rhyw fath o statws cyfreithiol os ydynt yn ymwybodol o hynny ai peidio, os oes yna fwriad sylfaenol i greu perthynas gyfreithiol (hyd yn oed os nad oes ganddynt ddogfen lywodraethol ysgrifenedig).

Mae yna ddau brif fath o strwythur cyfreithiol:

Anghorfforedig - e.e. Mudiadau, Ymddiriedolaethau
Corfforedig - e.e. cwmnïau cyfyngedig drwy warant, Cymdeithasau Diwydiannol a Chyfeillgar, Cwmnïau Diddordeb Cymunedol, Partneriaethau Cyfyngedig, (Mudiadau Elusennol Corfforedig a gyflwynwyd dan y Ddeddf Elusennau 2006).

Corfforedig - Anghorfforedig
Beth yw'r gwahaniaeth?

Mae gan fudiad corfforedig ei hunaniaeth gyfreithiol ei hun. Mewn geiriau eraill, mae'n gorff corfforedig a all weithredu'n gyfreithiol fel unigolyn. Golyga hyn y gall berchen eiddo, dechrau cytundebau a chyflogi pobl yn ei enw ei hun.
Ar y llaw arall, mae mudiad anghorfforedig yn aros yn gasgliad o unigolion, ac os yw eisiau prynu eiddo ac ati, rhaid iddo ddibynnu ar yr unigolion hynny i weithredu ar ei ran.

Mae corfforedigaeth hefyd yn golygu bod atebolrwydd y mudiad i'r trydydd person yn gyfyngedig i gyfanswm gwarantau'r aelodau neu'r cyfalaf rhandaliadau, gan ddibynnu ar natur y mudiad. Mae hwn yn darparu diogelwch i'r rhai sy'n rheoli'r mudiad a'r aelodau yn y mwyafrif o achosion.

Felly beth sy orau i'ch mudiad?

Mae yna fanteision ac anfanteision i'r ddau fath o strwythur cyfreithiol. Dylech ystyried y ffactorau yma: maint eich mudiad, costau sefydlu a chynnal, lefel y risg, a phrosesau gwneud penderfyniadau democrataidd.

Yn nodweddiadol bydd mudiadau yn dewis corfforedigaeth ble byddant yn cynnal gweithgareddau peryglus megis prynu lleoliad, cyflogi staff, codi arian sylweddol, dechrau cytundebau mawr ac ati.

Mae'n bwysig i gael eich strwythur cyfreithiol yn gywir, am y gall y strwythur anghywir ymyrryd â'ch gwaith effeithiol a gall gynyddu risg eich atebolrwydd personol. Gall fod yn syniad da ar y dechrau i geisio cyngor cyfreithiol proffesiynol, neu gyngor gan eich Cyngor Gwirfoddol Sirol.

Statws elusennol

Mae statws cyfreithiol eich mudiad yn hollol wahanol i'w statws elusennol. Gall elusennau fod yn gorfforedig neu'n anghorfforedig. Os oes gan eich mudiad amcanion elusennol ac os yw'n cwrdd â 'r meini prawf sylfaenol, rhaid cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau.

Os yw mudiad yn elusennol, beth bynnag yw'r strwythur cyfreithiol, gelwir aelodau'r corff llywodraethol yn *Ymddiriedolwyr*. Gellwch ystyried statws elusennol fel rhywbeth ychwanegol i'ch strwythur cyfreithiol presennol.

Gweler Taflen Wybodaeth 1.6. Statws Elusennol am fwy o wybodaeth.

Mentrau Cymdeithasol

Busnes yw menter gymdeithasol sydd ag amcanion cymdeithasol yn bennaf, ac sy'n ail-fuddsoddi ei elw yn ôl i'w wasanaethau neu i'r gymuned. Ceir mentrau cymdeithasol o bob lliw a llun, o siopau pentref cymunedol bychain i fudiadau mawr sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yr hyn y mae busnes yn ei wneud â'i elw sy'n pennu a yw'n fudiad cymdeithasol ai peidio, yn hytrach na'i strwythur cyfreithiol penodol. NID yw menter gymdeithasol yn fath o strwythur cyfreithiol, math o fusnes ydyw all fod ar amrywiaeth o ffurfiau cyfreithiol yn cynnwys pob un o'r rhai a restrir isod (ond ceir rhai cyfyngiadau gyda Chymdeithasau Diwydiannol a Darbodus). Bydd y strwythur cyfreithiol a ddewisir ar gyfer pob menter gymdeithasol benodol yn pennu pa ddogfen lywodraethu sydd ganddi ar waith, fel hefyd gydag unrhyw grŵp gwirfoddol.

Dyma rai pethau y dylech eu hystyried cyn penderfynu beth sy'n iawn i chi.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fudiadau gwirfoddol, ceir dewis rhwng bod yn fudiad anghorfforedig neu gwmni cynfyngedig drwy warant.

Strwythur anghorfforedig - Mudiad anghorfforedig

Rhai nodweddion mudiad Anghorfforedig:

- Mae'n grŵp o bobl a benderfynodd gydweithio i ddilyn pwrpas cyffredin anfasnachol a gytunwyd arno - e.e. clwb, cymdeithas, grŵp lleol, mudiad cymunedol. Rhaid bod yna fwriad i greu perthynas gyfreithiol ond nid oes rhaid rhoi hwn ar bapur.
- Mae busnesau anghorfforedig sy'n cynnwys dau berson neu fwy gyda'r bwriad o greu elw iddynt hwy neu eraill, yn bartneriaeth yn hytrach na mudiad.
- Nid yw dan reolaeth rheolydd allanol neu'n dilyn deddfwriaeth benodol, er mae peth deddf achos yn bodoli. Os yw'n elusennol, bydd yn atebol i gyfraith elusennol cyffredinol a rheolir gan y Comisiwn Elusennau os yw'n elusen gofrestredig.
- Mae'n strwythur cyffredin i fudiadau gwirfoddol, yn enwedig mudiadau ar raddfa fach.
- Mae'n eithaf hawdd a rhad i'w sefydlu a'i redeg. Mae'n wynebu nifer fach o reolau, felly ceir llai o fiwrocratiaeth.
- Mae'n rhydd i wneud ei reolau ei hunan (cyn belled nad yw'r rheolau hynny'n torri'r gyfraith).
- Nid oes angen cyfreithiol i gael dogfen reoli ysgrifenedig, ond mae'n ymarfer dda i gael un ac yn anhepgor os yw'n elusen gofrestredig.
- Gan ei fod yn anghorfforedig, nid oes ganddo bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân felly'r unigolion sy'n gweithredu ar ei ran sydd â pherchnogaeth asedau'r mudiad. Golyga hyn mai bob tro bydd un o'r unigolion hyn yn gadael, rhaid trosglwyddo'r asedau'n gyfreithiol i un arall. Digwydd yr un peth am unrhyw gytundeb cyfreithiol sydd gan y mudiad.
- Bydd aelodau'r corff llywodraethol yn bersonol atebol ar gyfer unrhyw ddyledion y mudiad na ellir eu talu allan o'r adnoddau. Gall hyn fod yn bryder os yw'r mudiad yn gwario gormod o arian neu'n cynnal gweithgareddau risg megis sefydlu les.

Strwythur anghorfforedig - Ymddiriedolaeth

Rhai nodweddion Ymddiriedolaeth

- Coda hyn ble roddir asedau (e.e. meddiannau, buddsoddiadau ac ati) gan un person (y *Setlwr* neu *Roddwr*) i berson arall (yr *Ymddiriedolwr*) gyda'r bwriad y dylid ei gymhwyso ar gyfer trydydd parti neu'r cyhoedd (y *Buddiolwr*). Unwaith y digwydd hyn, mae'r ymddiriedolwyr yn berchen yr ased ond gellir ei gymhwyso yn ôl ymddiriedolaeth lles y buddiolwyr yn unig.
- Ni reolir gan reolydd allanol (os nad yw'n elusen) ond bydd yn rhan o amrywiol ddeddfwriaeth, y mwyaf nodedig yw'r Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000.
- Fel arfer mae'n cael ei greu gan ddogfen a elwir yn Weithred, a chanddi rai ffurfioldebau.
- Mae'n gorff anghorfforedig, ac mae gan y rhai sy'n ei redeg, yr ymddiriedolwyr, atebolrwydd personol ar gyfer dyledion a rhwymedigaethau.
- Mae'n strwythur defnyddiol ble fedrwch gadw rheolaeth ymysg corff bach o bobl heb aelodaeth allanol.

Wedi ei ddiweddaru:03/02/2012

- Mae'n wynebu problemau arferol strwythurau anghorfforedig sy'n berthnasol i berchnogaeth a throsglwyddo asedau.
- Gall y derminoleg fod yn ddryslyd. Gelwir y rhai sy'n ei redeg yn *Ymddiriedolwyr*, os yw'n elusennol neu'n breifat. Fodd bynnag, gelwir y rhai sy'n rhedeg mathau eraill o fudiadau (e.e. cyfarwyddwyr cwmnïau) yn ymddiriedolwyr os yw'r mudiad yn un elusennol (mae elusen yn fath o ymddiriedolaeth).

Strwythur corfforedig - Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus

Rhai nodweddion Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus

- Mae yna ddau fath: cymdeithasau cydweithredol er budd yr aelodau (e.e. cydweithrediadau cynhyrchwyr a defnyddwyr) a chymdeithasau heb wneud elw sy'n rhedeg diwydiant, busnes neu fasnach er lles y gymuned.
- Mae ganddo statws corfforedig a gall gael cyfalaf rhannol neu fenthyciad, ond rhaid iddo dalu llog cymedrol ar unrhyw gyfalaf benthyciad.
- Mae yna lai o ddealltwriaeth na strwythurau corfforaethol eraill, a dylid derbyn cyngor gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol os ydych yn ystyried mabwysiadu'r math yma o strwythur cyfreithiol.
- Ni ellir cofrestru Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus er lles y gymuned gydag amcanion elusennol yn unig, gyda'r Comisiwn Elusennau gan eu bod yn elusennau *Eithriedig.* Fodd bynnag, gallant wneud cais i Adran Elusennau'r Cyllid Gwladol i'w dosbarthu ar gyfer buddiannau treth.
- Rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ac yn atebol i Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 a deddfwriaeth arall.

Strwythur Corfforedig - Cwmni cyfyngedig drwy warant

Rhai nodweddion Cwmni cyfyngedig drwy warant

- Mae'n sefydliad aelodaeth a ffurfiwyd ac a gofrestrwyd dan ddarpariaethau'r Ddeddf Cwmnïau.
- Mae'n gorfforedig ac yn mwynhau atebolrwydd cyfyngedig.
- Mae'n gwmni cyfyngedig preifat gyda gwarantwyr yn hytrach na chyfranddalwyr, felly mae'n addas ar gyfer mudiadau gwirfoddol. Mae'r aelodau yn cytuno i dalu swm penodedig a elwir yn Warant, os digwydd i'r cwmni orffen neu'n methu talu dyledion (fel arfer rhwng £1 a £10).
- Mae'n strwythur a ddewisir gan fudiadau gwirfoddol sy'n cyflogi staff, sy'n sefydlu cytundebau, yn rheoli buddsoddiadau, a/neu eiddo neu asedau eraill, ac ati, am fod atebolrwydd cyfyngedig yn helpu lleihau bygythiad atebolrwydd personol ar gyfer y cyfarwyddwyr.
- Ceir mwy o reolaeth arno na chymdeithas, felly mae'n fwy drud a chymhleth i'w sefydlu a'i redeg.
- Mae ei gorff rheolaethol yn cynnwys Cyfarwyddwyr sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am y cwmni ac sy'n sicrhau y rhedir y gweithgareddau yn gywir.

Wedi ei ddiweddaru:03/02/2012

- Mae'n medru dal cytundebau ac asedau yn ei enw ei hun am fod ganddo hunaniaeth gyfreithiol ar wahân i'r rhai sy'n ei redeg.
- Does dim gwahaniaeth os yw'r cyfarwyddwyr yn newid, gan mai'r cwmni ac nid y cyfarwyddwyr sy'n dal enw'r tir, sy'n sefydlu cytundebau, ac ati, ond rhaid rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i Dŷ'r Cwmnïau.
- Ni fydd y cyfarwyddwyr yn bersonol atebol am ddyledion y cwmni, os na weithredir yn esgeulus neu'n amhriodol.
- Rheolir gan Dŷ'r Cwmnïau ac mae'n amodol ar Ddeddf Cwmnïau a deddfwriaeth arall.

Strwythur Corfforedig - Cwmnïau Diddordeb Cymunedol (CIC)

Rhai nodweddion Cwmni Diddordeb Cymunedol:

- Mae'n fath newydd o gwmni yn arbennig ar gyfer mentrau cymdeithasol cyfyngedig drwy warant neu gyfranddaliadau. Ffurfir yn yr un ffordd â chwmni cyffredin gyda chyfyngiadau ychwanegol, gan gynnwys yr angen i gwrdd â phrawf diddordeb cymunedol cyfredol.
- Mae'n amodol ar 'glo asedau'' sy'n sicrhau y cedwir elw ar gyfer pwrpasau cymunedol, ond gall godi arian drwy fenthyca a dyraniad cyfranddaliadau o fewn cyfyngderau statudol.
- Ni all gofrestru fel elusen ond gall elusen drosi i CIC gyda chaniatâd y Comisiwn Elusennau.
- Rheolir gan Reolydd CIC yn Nhŷ'r Cwmnïau ac mae'n amodol ar y Ddeddf Cwmnïau (Archwiliadau a Menter Gymunedol) 2004 a'r Deddfau Cwmnïau.

Strwythur Corfforedig - Sefydliad Elusennol Corfforedig (CIO)

Mae hwn yn strwythur cyfreithiol corfforedig arfaethedig newydd a grëwyd yn arbennig ar gyfer elusennau cofrestredig, a ddylid dod i rym o Wanwyn 2012. Mae CIO yn mwynhau holl fuddion corfforedigaeth gan ei fod yn gwmni elusennol. Yn ogystal, caiff ei reoli'n unig gan y Comisiwn Elusennau, gan hepgor y baich traddodiadol o reoli deublyg ar gyfer cwmnïau elusennol cyffredin. Bydd sefydliadau sy'n bodoli yn medru trosi.

Statws CASC (Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol)

Cafodd y Cynllun Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC) ei gyflwyno ym mis Ebrill 2002. Mae hyn wedi galluogi nifer o glybiau chwaraeon amatur lleol i gofrestru gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) a manteisio ar ystod o ostyngiadau yn y dreth, yn cynnwys Cymorth Rhodd.

Rhaid i glybiau chwaraeon gael cyfansoddiad ffurfiol er mwyn i amodau'r cynllun fod yn rhwymol i'r aelodau a'u pwyllgorau llywodraethu. Golyga hyn fod angen i glybiau sy'n dymuno gwneud cais am statws CASC edrych yn ofalus ar eu dogfen lywodraethu i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â gofynion CASC cyn iddynt wneud cais i HMRC (gweler

isod i gael rhagor o wybodaeth am ddogfennau llywodraethu). Mewn egwyddor, gall clybiau chwaraeon gael unrhyw strwythur cyfreithiol a chael statws CASC, ond yn ymarferol y prif strwythurau a gaiff eu mabwysiadu yw cymdeithasau anghorfforedig, ï

Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus a chwmn au sy'n gyfyngedig drwy warant. Pa bynnag strwythur cyfreithiol a ddewisir, rhaid i'r ddogfen lywodraethu ar gyfer y strwythur hwnnw gael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan yr aelodau i fod yn dderbyniol. Mae'r amodau ar gyfer dod yn CASC yn eithaf hawdd i'w bodloni, ond rhai i'r clybiau chwaraeon gyd-fynd â'r rhain yn ymarferol, yn ogystal â chael y rhain fel gofynion yn rheolau'r clwb. Rhaid i'r clwb:

- fod yn agored i'r gymuned gyfan
- cael ei drefnu ar sail amatur
- fel ei brif bwrpas, ddarparu cyfleusterau ar gyfer un neu fwy o gampau cymwys a hyrwyddo cyfranogiad ynddo/ynddynt
- bodloni gofyniad y lleoliad
- bodloni'r amod rheoli.

Ni all CASC cofrestredig gael ei gydnabod fel elusen at ddibenion treth. Fodd bynnag, mae'n agored i unrhyw glwb chwaraeon nad yw wedi cofrestru fel CASC i wneud cais i'r Comisiwn Elusennau neu reolydd elusennau arall i gofrestru fel elusen fel dewis arall. Ni ddylai clybiau sy'n bwriadu cael statws elusennol wneud cais am statws CASC.

Newid eich statws cyfreithiol

Gallwch newid eich statws trefniadol, ond mynnwch gyngor gan eich Cyngor Gwirfoddol Sirol cyn i chi wneud. Y newid mwyaf cyffredin yw dod yn gorfforedig.

Pam newid?

- Am fod eich mudiad wedi tyfu ac yn cyflogi staff.
- Am fod eich mudiad wedi prynu eiddo a/neu asedau mawr eraill.
- Am fod eich mudiad yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n cynyddu risg atebolrwydd i drydydd parti (e.e. ymrwymo i gytundebau mawr).
- Am fod eich trosiant ariannol wedi cynyddu'n sylweddol.

Fodd bynnag, nid yw corfforiaethu mudiad sy'n bodoli'n barod yn unig yn cynnwys cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a newid eich enw.
Mewn gwirionedd, rhaid cofrestru eich dewis chi o fudiad corfforaethol newydd, a rhaid trosglwyddo asedau, staff ac ati cyn diddymu eich mudiad cyfredol.
Mae hwn yn broses gymhleth a dylid chwilio am gyngor cyfreithiol proffesiynol.

Beth yw'r Ddogfen Lywodraethol?

Mae'n fath o lawlyfr cyfarwyddiadau ar gyfer eich mudiad.

Mae eich dogfen lywodraethol yn gosod allan eich statws cyfreithiol, beth yw amcanion eich mudiad, sut y bydd yn cyflawni'r rhain, a sut y rhedir y cyfan.

Bydd enw'r ddogfen yn dibynnu ar statws cyfreithiol eich mudiad. Gall fod yn:
Cyfansoddiad - os mai mudiad ydych chi

Gweithred Ymddiriedolaeth - os mai ymddiriedolaeth ydych chi

Memorandwm ac Erthyglau Sefydlu - os ydych yn gwmni cyfyngedig drwy warant neu CIC

Y Rheolau - os ydych yn gymdeithas ddiwydiannol a darbodus.

Pam fod angen dogfen lywodraethol?

Fel y gŵyr pawb beth rydych yno i wneud - Mae mudiadau yn bodoli i gwrdd â gofynion o fewn y gymdeithas. Mae eich dogfen lywodraethol yn amcanu'ch amcanion - yr amcanion hynny a sefydlwyd er mwyn eu cwrdd - a sut y byddwch yn eu traddodi. Mae hefyd yn trefnu'r grymau sydd ar gael i'r corff llywodraethol i gyflawni'r amcanion yma.

Fel bod eich corff llywodraethol yn medru cwrdd â gwneud penderfyniadau - Mae gan y mwyafrif o fudiadau gwirfoddol gorff llywodraethol sy'n gyfreithiol gyfrifol am weithgareddau'r mudiad. Mae eich dogfen lywodraethol yn trefnu ymrwymiadau a rheolau gweinyddol eich corff llywodraethol.

Fel y gallwch ddiffinio'ch aelodaeth, eu hawliau a'u cyfrifoldebau - Mae gan nifer o fudiadau aelodaeth sy'n eu galluogi i gynnwys eu deiliaid diddordeb mewn amryw weithgareddau'r mudiad. Mae'r ddogfen lywodraethol yn trefnu termau aelodaeth a darpariaethau gweinyddol eraill sy'n eu galluogi i gyfranogi yn eich mudiad.

Fel y gallwch wybod beth all ei wneud gydag asedau'r mudiad - Fel arfer bydd eich dogfen lywodraethol yn cyfyngu defnydd asedau'r mudiad i gyflawni'r amcanion, ond weithiau gall ganiatáu taliadau i aelodau'r corff llywodraethol mewn amgylchiadau eithriadol (e.e. tâl am wasanaethau proffesiynol). Mae hefyd yn nodi beth ddylid gwneud â'r asedau os yw'r mudiad yn dirwyn i ben, fel arfer eu trosglwyddo i fudiad di-elw gydag amcanion tebyg.

Meddyliwch am y dyfodol yn ogystal â'r presennol:

Mae'r mwyafrif o fudiadau yn tyfu neu'n newid dros gyfnod o amser ac mae'n bwysig fod eich dogfen lywodraethol yn eich galluogi i wneud hyn - felly pan fyddwch yn ei gynllunio, meddyliwch am beth hoffech wneud yn y dyfodol, yn ogystal â

nawr. Mae'n haws i adeiladu hyblygrwydd ar y dechrau yn hytrach na'i newid yn nes ymlaen.
Sicrhewch fod pŵer penodol gennych i newid y ddogfen lywodraethol.

Rydyn ni wedi llunio'r ddogfen lywodraethol, beth nawr? - peidiwch â'i rhoi gadw ac anghofio amdani:

- Rhaid i aelodau'r corff llywodraethol ddilyn y ddogfen lywodraethol felly sicrhewch fod copi i bawb.
- Wedyn sicrhewch eu bod wedi darllen a deall y ddogfen.
- Cofiwch fod eich dogfen lywodraethol yn debyg i lawlyfr cyfarwyddiadau fel y gall pawb gyfeirio ato'n rheolaidd i'w hatgoffa pam y sefydlwyd y mudiad a sut y'i rhedir.
- Adolygwch y cyfan yn gyson i sicrhau ei fod yn ddigonol ar gyfer eich pwrpasau presennol a dyfodol. Os nad yw, newidiwch e.
- Peidiwch â bod y math o fudiad sy'n edrych ar ei dogfen lywodraethol pan fo problem. Efallai gallech fod wedi osgoi'r broblem yn llwyr os fyddech i gyd yn gyfarwydd â'r ddogfen yn y lle cyntaf.

Beth ddylai'r ddogfen lywodraethol ei gynnwys?

Cymalau sy'n dweud pam y sefydlwyd eich mudiad:

- Beth yw eich bwriad - *yr Amcanion*.
- Pwy fydd yn elwa - *y Buddiolwyr.*
- Ardal ddaearyddol - *Ardal Budd.*
- Beth allwch chi wneud er mwyn dilyn eich bwriadau a'ch amcanion - *y Pwerau*.

Cymalau sy'n dweud sut y rhedir y mudiad:

- Pwy all fod yn aelod o'r mudiad (os yn addas) a sut yr ymaelodir neu beidio bod yn aelod.
- Rheolau ar gyfer cynnal cyfarfodydd cyffredinol sy'n agored i bob aelod o'r mudiad(yn wrthwynebol i gyfarfodydd y corff llywodraethol).
- Rheolau ar gyfer apwyntio neu ddiddymu aelodau'r corff llywodraethol, a rheolau ar gyfer cynnal cyfarfodydd.
- Rheolau ar gyfer delio ag arian ac eiddo, gan gynnwys y gallu i fenthyca a buddsoddi.
- Sut i ddiwygio'r ddogfen lywodraethol ac unrhyw gyfyngiadau ar beth a ellir ei ddiwygio.
- Sut y gellir ad-dalu aelodau'r corff llywodraethol am dreuliau cyfreithlon, a delir am wasanaethau a ddarperir i'r mudiad neu dalu nôl fel arall.
- Sut i wneud rheolau eilaidd, a elwir weithiau'n is-ddeddfau, i'w rhedeg law yn llaw â'r ddogfen lywodraethol, a helpu gyda gwaith gweinyddol y mudiad.
- Sut i ddiddymu'r mudiad a beth i wneud gyda'r asedau sy'n weddill.

Cyngor pellach:

Comisiwn Elusennau Lloegr a Chymru
Ffôn: 0845 3000 218
www.charity-commission.gov.uk

Tŷ'r Cwmnïau
Ffôn: 0303 1234 500
www.companies-house.gov.uk

HM Revenue and Customs
www.hmrc.gov.uk

Reolydd CIC
Ffôn: 029 20346228
www.cicreg.gov.uk

Financial Services Authority
Ffôn: 020 7066 1000
www.fsa.gov.uk

CASC Info
www.cascinfo.co.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8UH
Elusen Gofrestredig *1060242*

Ffôn: 01685 353900 enquiries@vamt.net
Ffacs: 01685 353909 www.vamt.net

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:03/02/2012

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk